



Canllawiau ar gyfer Rhaglenni Gradd Proffesiynau Gwyddor Gofal Iechyd Cyn- gofrestru



Dyddiad y cytunwyd ar y polisi:

Dyddiad yr
Adolygiad:



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Tabl Cynnwys

Rhaglenni Gwyddor Gofal Iechyd Cyn-gofrestru	
Rhaglen Gradd Gwyddor Gofal Iechyd llawn amser 3 blynedd	
Cyllid	
Rhaglenni Gradd Gwyddor Gofal Iechyd rhan-amser hyd at 3 blynedd.....	
Gofynion mynediad	
Cyllid	
Gwyliau Blyneddol	
Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth	
Absenoldeb Salwch	
Gwybodaeth ar gyfer pob Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd Cyn-gofrestru	
Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth	
Absenoldeb Salwch	
Atodiad A.....	

Dyddiad

Rhaglenni Gwyddor Gofal Iechyd Cyn-gofrestru

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at randdeiliaid addysg cyn-gofrestru gan gynnwys cyflogwyr, Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau), a myfyrwyr. Mae Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Mae nifer o raglenni gwyddor gofal iechyd cyn-gofrestru sy'n dod o fewn y cylch gwaith hwn.

Bob blwyddyn, mae AaGIC yn ariannu lleoedd ar ran GIG Cymru ar raglenni Gwyddor gofal iechyd cyn-gofrestru. Y rhaglenni cyn-gofrestru cyfredol yw:

- Rhaglenni gradd gwyddor gofal iechyd amser llawn 3 blynedd
- Rhaglenni gradd rhan-amser PTP mewn Awdioleg, Peirianeg Glinigol a Phatholeg

Mae'r canllaw Cymru gyfan hwn yn disgrifio'r gwahanol raglenni cyn-gofrestru gwyddor gofal iechyd y mae AaGIC yn eu comisiynu ac yn manylu ar eu trefniadau ariannu.

Sylwch fod Radiograffwyr ac Ymarferwyr Adrannau Llawdriniaeth yng Nghymru wedi'u cynnwys o fewn ymbarél gweithwyr proffesiynol gwyddor gofal iechyd, ac felly mae eu rhaglenni gradd wedi'u cynnwys isod.

Rhaglen Gradd Gwyddor Gofal Iechyd llawn amser 3 blynedd

Mae rhaglen gradd gwyddor gofal iechyd llawn amser 3 blynedd yn cynnwys addysgu mewn SAU a dysgu ar sail lleoliad. Ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni, gwneir cais am gofrestru proffesiynol ar ôl cwblhau; yr eithriad yw Patholeg, lle mae'r portffolio cofrestru yn cael ei gychwyn fel rhan o'r rhaglen radd a'i gwblhau pan fyddwch yn gweithio yn y GIG.

Mae unigolion sy'n bodloni gofynion mynediad eu sefydliad addysg uwch dewisol yn gymwys i wneud cais am y rhaglen drwy UCAS ar gyfer y rhaglenni llawn amser hyn. Gellir cael manylion y gofynion mynediad o wefannau unigol y Sefydliadau Addysg Uwch.

Mae AaGIC yn comisiynu'r rhaglenni llawn amser canlynol gan brifysgolion Cymru a nodir isod:

Prifysgol Bangor

[BSc – Radiograffeg Diagnostig Llawn Amser](#)

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

[BSc – Gwyddorau Bywyd Llawn Amser – Gwaed, Haint, Cellog a Geneteg](#)

Prifysgol Caerdydd

[BSc – Radiograffeg Diagnostig Llawn Amser](#)

[BSc – Radiotherapi ac Oncoleg Llawn Amser](#)

Prifysgol Abertawe

[BSc – Awdioleg Llawn Amser](#)

[BSc – Ffisioleg Gardiaidd Llawn Amser](#)

[BSc – Peirianeg Glinigol Llawn Amser \(Adsefydlu a Pheirianeg Feddygol\)](#)

[BSc – Niwroffisioleg Llawn Amser](#)

[BSc – Meddygaeth Niwclear Llawn Amser](#)

[BSc – Ffiseg Radiotherapi Llawn Amser](#)

[BSc – Ymarfer Adran Llawdriniaeth Llawn Amser](#)

[BSc – Gwyddor Resbiradol a Chwsg Llawn Amser](#)

Prifysgol De Cymru

[BSc – Ymarfer Adran Llawdriniaeth Llawn Amser](#)

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

[BSc – Ymarfer Adran Llawdriniaeth Llawn Amser](#)

Cyllid

Dyma'r trefniadau ariannu ar gyfer y rhaglenni BSc llawn amser:

1. Gall ymgeiswyr wneud cais am **Fwrsariaeth GIG Cymru** gan [Wasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr \(SAS\)](#) ar ôl cytuno i ymrwymo i weithio yng Nghymru am 2 flynedd ar ôl cwblhau eu rhaglen . Rhaid i ymgeiswyr gofrestru eu bwriad ar [System Gofrestru Iechyd Cymru](#) ar wefan SAS a chwblhau'r datganiad o fewn Telerau ac Amodau Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.

Mae **Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru** yn darparu'r cymorth ariannol canlynol i fyfyrwyr:

- Cost ffioedd dysgu
- Bwrsariaeth sy'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer costau byw
- Grant o £1,000 heb brawf modd,
- Yn ogystal, mae myfyrwyr yn cael eu cefnogi ar gyfer costau megis teithio a llety (tra byddant ar leoliad), Lwfansau Gofal Plant, Myfyrwyr Anabl, Dibynyddion a Dysgu Rhieni.

Os ydych chi'n gymwys, byddwch chi'n cael mynediad at benthyciad myfyriwr yn ogystal â Bwrsariaeth GIG Cymru (yn amodol ar reoliadau Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr)). Mae swm y benthyciad y mae gennych hawl iddo yn dibynnu a ydych chi'n fyfyrwr sy'n hanu o Gymru neu'n dod o'r tu allan i Gymru. Gweler rhagor o wybodaeth am Fwrsariaeth GIG Cymru: [Bwrsariaeth GIG Cymru - AaGIC](#) .

2. I'r rhai nad ydynt am wneud cais am y bwrsariaeth , gellir gwneud cais am gyllid myfyrwyr arall:

- Bydd gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fynediad at y **pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr** sydd ar gael o [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#) os nad ydyn nhw eisoes wedi cael benthyciad myfyriwr ar gyfer rhaglen gradd flaenorol. Gall hyn gynnwys ffioedd dysgu, costau byw a benthyciadau myfyrwyr.
- Gall ymgeiswyr nad ydynt yn hanu o Gymru dderbyn **cyllid o ffynhonnell arall**. Gall hyn gynnwys cyllid a benthyciadau gan y corff ariannu Cyllid Myfyrwyr perthnasol yn eu gwlad gartref ac unwaith eto gall gynnwys ffioedd dysgu, costau byw a benthyciadau myfyrwyr.

3. Yn lle hynny, gall ymgeiswyr ariannu eu lle ar y rhaglen eu hunain.

4. Gall ymgeiswyr sydd eisoes yn gweithio yn GIG Cymru gael mynediad hefyd at y rhaglenni gradd hyn neu rai eraill, yn dibynnu ar eu cyfrifoldebau cyflogaeth ac anghenion y gwasanaeth:

- Disgrifir isod fanylion rhaglenni gradd gweithwyr GIG Cymru mewn Awdioleg, Peirianeg Glinigol a Phatholeg.
- Lle nad oes rhaglen gradd i weithwyr GIG Cymru a ddisgrifir isod, dylai gweithwyr siarad â'i gyflogwr ynghylch trefniadau ariannu posibl.

Dylid nodi, wrth wneud cais am rolau gwyddor gofal iechyd yn GIG Cymru ar ôl cwblhau'r rhaglenni gradd hyn, **nad** yw'r dull ariannu (bwrsariaeth, cyllid myfyrwyr arall, hunan-ariannu, neu ariannu gan gyflogwr) yn cael ei ystyried ac **nid** ydynt yn rhan o'r cais hwnnw.

Mae rolau ar agor yn gyfartal i bawb sydd wedi cwblhau'r rhaglenni hyn, ochr yn ochr â'r rhai sydd wedi hyfforddi mewn mannau eraill neu sydd wedi cwblhau llwybrau hyfforddiant proffesiynol eraill. Y profiad, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gewch drwy'r prifysgolion a'r lleoliadau yn GIG Cymru yw'r hyn a fydd yn eich gwneud chi'n wahanol wrth wneud cais, nid y trefniant ariannu a gewch.

Rhaglenni Gradd Gwyddor Gofal Iechyd i Weithwyr GIG Cymru

Mae gan weithwyr GIG Cymru sydd wedi cwblhau Lefel 4 sy'n benodol i'r proffesiwn mewn Awdioleg, Peirianeg Glinigol, neu Batholeg raglen radd ar gael sy'n galluogi cwblhau Lefelau 5 a 6 a chyflawni cofrestriad proffesiynol o fewn tair blynedd.

Mae amgylchiadau lle gellir ystyried llwybrau hyfforddiant blaenorol eraill ar gyfer mynediad hefyd, megis trwy gydnabod dysgu blaenorol neu gwblhau portffolio ychwanegol. I gael gwybodaeth am ofynion mynediad, cysylltwch â'r sefydliad addysg uwch perthnasol.

Dim ond gweithwyr presennol o fewn GIG Cymru o ddisgyblaethau perthnasol all gael mynediad at y rhaglenni hyn lle:

- mae cyllid wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru drwy'r cynllun addysg a hyfforddiant blynyddol,
- mae'r gweithiwr yn bodloni'r meini prawf mynediad perthnasol,
- **ac** ar gytundeb cefnogaeth gan eu rheolwr llinell.

Y rhaglenni sydd ar gael yng Nghymru yw:

Prifysgol Abertawe

[BSc – Awdioleg rhan-amser](#)

[BSc – Peirianeg Glinigol Rhan-amser](#) (Peirianeg Adsefydlu a Meddygol)

Prifysgol Met Caerdydd

[BSc - Patholeg rhan-amser](#)

Dyma'r disgwyliadau ar gyfer gweithwyr a'u cyflogwr.

Ar gyfer y rhaglen Batholeg:

- Dylai'r gweithiwr dreulio'r nifer cytunedig o oriau'r wythnos yn cwblhau'r rhaglen, gyda gweddill eu horiau cytundebol wythnosol yn cael eu treulio yn cyflawni eu rôl yn eu cyflogaeth barhaol.
- Mae hyn wedi'i osod ar 1 diwrnod yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn, gyda'r sefydliad addysg uwch neu'r hyfforddiant i ffwrdd o'u rôl arferol, ynghyd â 0.5 diwrnod ychwanegol yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn, i ffwrdd o'r gweithle ar gyfer cwblhau aseiniadau ac absenoldeb astudio.
- Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnal fel rhan o'u rôl barhaol lle nad yw hyn yn gofyn am weithio mewn maes gwahanol o'r adran neu wasanaeth gwahanol.

- Lle mae'r rôl barhaol neu'r trefniant gwasanaeth lleol yn golygu bod hyfforddiant yn gofyn am leoliad/au amgen mewn ardal/meysydd gwahanol o'r adran neu wasanaeth/au gwahanol neu fwrdd/au iechyd gwahanol, disgwylir y bydd y gweithiwr yn cwblhau'r hyfforddiant hwn y tu allan i'w rôl arferol (mae hyn yn berthnasol i'r rhaglen Batholeg yn unig, oherwydd ehangder portffolio cofrestru'r Gwyddonydd Biofeddygol). Mae hyn wedi'i osod ar uchafswm o 1 diwrnod ychwanegol yr wythnos, wedi'i gyfartaleddu dros y flwyddyn.
- Disgwylir i hunanastudio gael ei gwblhau y tu allan i oriau gwaith, fel sy'n gyson ag unrhyw hyfforddiant a wneir tra byddwch mewn cyflogaeth.

Ar gyfer y cyrsiau Awdioleg a Pheirianeg Glinigol:

- Mae'r gweithiwr i dreulio'r nifer cytunedig o oriau'r wythnos yn cwblhau'r rhaglen, gyda gweddill eu horiau cytundebol wythnosol yn cael eu treulio yn cyflawni eu rôl yn eu cyflogaeth barhaol.
- Mae hyn wedi'i osod ar 1 diwrnod yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn, gyda'r sefydliad addysg uwch neu'r hyfforddiant i ffwrdd o'u rôl arferol, ynghyd â 0.5 diwrnod ychwanegol yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn, i ffwrdd o'r gweithle ar gyfer cwblhau aseiniadau ac absenoldeb astudio.
- Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnal fel rhan o'u rôl barhaol.
- Disgwylir i hunanastudio gael ei gwblhau y tu allan i oriau gwaith, fel sy'n gyson ag unrhyw hyfforddiant a wneir tra byddwch mewn cyflogaeth.

Cyllid

I gydnabod yr hyfforddiant sy'n cael ei wneud gan y rhai sydd mewn cyflogaeth yn y gwasanaethau hyn, mae'r trefniadau ariannu ar waith i alluogi cyflogwyr i hawlio cyllid ôl-lenwi cyflog fel y disgrifir isod.

Mae pob ymgeisydd ar gyfer y 3 rhaglen hyn yn weithwyr y GIG . Mae nifer y lleoedd comisiynedig a ariennir bob blwyddyn wedi'i bennu gan gyllid Llywodraeth Cymru y cytunir arno'n flynyddol yn dilyn cyhoeddi'r cynllun Addysg a Hyfforddiant. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â chyflogwyr yn flynyddol.

Cyfrifoldeb pob sefydliad sy'n cyflogi yw penderfynu pa weithwyr sy'n briodol i gael eu cefnogi i wneud cais am y rhaglen y flwyddyn honno .

Telir yr holl ffioedd dysgu gan AaGIC, yn ogystal ag ôl -lenwi cyflog (gweler isod) sy'n galluogi'r

gweithiwr i symud ymlaen â'i astudiaethau ar sail rhan-amser wrth gynnal ei gontract cyflogaeth gyda'r GIG. Unwaith y bydd cefnogaeth gan eu rheolwr wedi'i chadarnhau, mae'n ofynnol i weithwyr wneud cais am le ar y rhaglen yn uniongyrchol drwy'r broses recriwtio SAU. Os bydd y sefydliad addysg uwch yn cadarnhau eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ac yn cael cynnig lle, bydd angen darparu cadarnhad o'r gefnogaeth honno gan eu rheolwr llinell i cytuno y gellir cefnogi eu cyllid . Unwaith y bydd yr holl gadarnhadau yn eu lle, rhaid i reolwyr llinell anfon e-bost HEIW.FinanceTeam@wales.nhs.uk gydag enwau'r aelodau staff hynny sydd wedi cael cyllid.

Dyma'r trefniadau ariannu ar gyfer y rhaglenni rhan -amser :

- Ffioedd dysgu a delir gan AaGIC
- Bydd ymgeiswyr sy'n ymgymryd â lle hyfforddi ar raglen gradd rhan -amser **yn parhau i fod mewn cyflogaeth gyda'u cyflogwr presennol** am hyd y cwrs.
- Bydd y cyflogwr yn parhau i dalu'r cyflog cyfredol am hyd y cwrs. Bydd y gweithiwr yn parhau i dalu ei gostyngiadau arferol o'i gyflog, megis cyfraniadau pensiwn, treth, a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Bydd AaGIC yn talu ôl-lenwi cyflog i gyflogwyr hyd at ganolbwynt band 4 Agenda ar gyfer Newid am 1 diwrnod yr wythnos, wedi'i gyfartaleddu ar draws y flwyddyn i ddarparu cefnogaeth.
- Yn ogystal, bydd gofyn i'r cyflogwr ddarparu 0.5 diwrnod yr wythnos i ffwrdd o'r gweithle i'r myfyriwr ar gyfer cwblhau aseiniadau ac absenoldeb astudio.
- Y Rhaglen Batholeg yn unig: Os oes angen lleoliad amgen ar gyfer gweithwyr sy'n methu â chwblhau eu cymwyseddau yn eu hamgylchedd gwaith, bydd AaGIC hefyd yn talu costau ôl-lenwi i'r cyflogwr i hwyluso rhyddhau staff hyd at ganolbwynt band 4 Agenda ar gyfer Newid am hyd at 1 diwrnod yr wythnos, ar gyfartaledd dros y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant a wneir drwy leoliad mewn maes gwahanol o'r adran, mewn gwasanaeth gwahanol, neu mewn bwrdd iechyd neu ymddiriedolaethau GIG Cymru gwahanol.
- Bydd AaGIC yn ariannu ad-daliad am gostau teithio mewn perthynas â theithio i leoliadau/sefydliad addysg uwch amgen yng Nghymru sy'n **fwy na** chost ddyddiol teithio rhwng eu **cartref a'u gweithle** . Ni ddylid ad-dalu treuliau i unrhyw fyfyrwr sy'n ymgymryd, ar gais, â lleoliad y tu allan i Gymru.
- Bydd gofyn i weithwyr GIG Cymru gael cyfrif treuliau electronig i hawlio ad-daliad o dreuliau teithio gan eu cyflogwr. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am anfonebu AaGIC am y costau hyn a hawli.
- Dylai cyflogwyr gyflwyno Anfonebau i AaGIC yn fisol yn manylu ar ddadansoddiad y costau hynny mewn perthynas â:

a. Costau ôl-lenwi cyflog gweithwyr ynghyd â chostau parhaus y cyflogwr am hyd y

cwrs (ac eithrio goramser ac unrhyw ychwanegiadau).

- b. Cost teithio'r myfyriwr i'w sefydliad addysg uwch ac yn ôl (a lleoliadau amgen lle mae hyn yn berthnasol – Rhaglen Batholeg yn unig) sy'n **fwy na** chost ddyddiol teithio rhwng eu **cartref a'u lleoliad gwaith**.
- c. Mae cyfraddau milltiroedd awdurdodedig a ad-dalir yn cael eu meincnodi yn erbyn lwfansau milltiroedd cyflogwyr y GIG: Cyfradd wrth gefn ([a elwid gynt yn gyfradd trafnidiaeth gyhoeddus](#))
- d. Dylai'r rheolwr llinell yn y Bwrdd Iechyd neu ymddiriedolaeth iechyd GIG Cymru sicrhau bod pob hawliad teithio ar gyfer teithio i'w sefydliad addysg uwch ac yn ôl yn cael ei wirio gyda'r SAU cyn iddynt gael eu cymeradwyo i'w talu.
- e. Gweler Atodiad A - Siart Llif am ad-daliad treuliau lleoliadau amgen .
- f. Ni fydd taliadau ceir prydles y GIG yn cael eu had-dalu gan AaGIC.

Gall gweithwyr hawlio cost parcio ceir a thollau twneli/pontydd yn ôl os, ynghyd â'u milltiroedd, mae hyn yn gwneud i'r gost ddyddiol fod yn fwy na'r gost ddyddiol arferol i'w 'lleoliad sylfaenol'. Lle mae hyn yn wir, gall gweithwyr wneud hawliad am y gwahaniaeth. Rhaid i'r myfyriwr ddarparu derbynebaw (electronig neu bapur) i hawlio'r costau hyn. Ni ellir ad-dalu costau parcio ceir a thollau lle nad yw milltiroedd yn cael eu hawlio.

- Dylid labelu anfonebau gan gyflogwyr at sylw AaGIC a'u cyflwyno i AaGIC drwy HEIW.FinanceTeam@wales.nhs.uk
- **Nid** yw gweithwyr ar y 3 rhaglen hyn yn gymwys i wneud cais am gynllun bwrsariaeth GIG Cymru.

Gwyliau Blynyddol

Dylid cynnal hawl gwyliau blynyddol i Weithwyr y GIG sy'n derbyn ôl-lenwi cyflog ar eu hawl gytundebol, gan gydnabod nad oes unrhyw newid wedi bod i delerau ac amodau unigolyn a gytunwyd drwy'r llwybr addysg hwn ac felly mae eu contract cyflogaeth yn parhau i fod yn weithredol am y cyfnod hwn.

Gellir rhoi dyddiadau tymor penodol i raglenni i gyflogwyr ar gais darparwyr addysg.

Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth

Ni fydd AaGIC yn ad-dalu costau cyflogwr sy'n deillio o absenoldeb myfyriwr o hyfforddiant oherwydd absenoldeb mamolaeth.

Rhaid i'r SAU a bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd y GIG gysylltu ag AaGIC pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i'w hyfforddiant i ailddechrau cyfraniadau ôl-lenwi.

Absenoldeb

Ni fydd AaGIC yn ad-dalu costau cyflogwr sy'n deillio o absenoldeb myfyriwr o hyfforddiant oherwydd absenoldeb salwch hirdymor estynedig.

Rhaid i'r SAU a bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd y GIG gysylltu ag AaGIC pan fydd y myfyriwr yn dychwelyd i'w rhaglen astudio i ailddechrau cyfraniadau ôl-lenwi.

Gwybodaeth ar gyfer pob Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd Cyn- gofrestru

Gofynion mynediad

Mae'r rhaglenni ar gael i ymgeiswyr sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd y sefydliad addysg uwch i wneud cais. Gellir cael mynediad at ofynion mynediad a chyfeiriadau e-bost cyswllt perthnasol o wefannau unigol y Sefydliadau Addysg Uwch.

Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/
Mabwysiadu

Dylai myfyrwyr lynu wrth bolisiâu Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth a Rhiant eu cyflogwr/Sefydliad Addysg Uwch.

Pan fo angen i fyfyrwr ymestyn hyd ei hyfforddiant oherwydd absenoldeb mamolaeth, dylai'r sefydliad addysg uwch ofyn yn ffurfiol am gyllid ychwanegol gan AaGIC drwy lenwi'r ffurflen gais am newid ar-lein.

Absenoldeb
Salwch

Dylai myfyrwyr lynu wrth bolisi Absenoldeb Salwch eu cyflogwr/SAU. Pan fo angen i fyfyrwr ymestyn hyd ei hyfforddiant oherwydd Salwch, dylai'r SAU ofyn yn ffurfiol am gyllid ychwanegol gan AaGIC drwy lenwi'r ffurflen gais am newid berthnasol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen esboniad pellach arnoch, yna anfonwch e-bost at: HEIW.FinanceTeam@wales.nhs.uk /<mailto:HEIW.EdCommissioning@wales.nhs.uk>

Atodiad A

Siart llif ar gyfer ad-dalu treuliau lleoliad ar gyfer myfyrwyr a ariennir drwy'r llwybr cyflogai

